**Diweddariad am gymorth ar gyfer ffermio organig yn 2024**

**6 Rhagfyr 2023**

Ym mis Awst, fe wnaeth Fforwm Organig Cymru annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei chynlluniau i roi'r gorau i gynnig cymorth ar gyfer ffermio organig yng Nghymru. Aeth nifer ohonoch ati i gefnogi'r ymgyrch hon, a oedd yn cynnwys mwy na 500 o gynhyrchwyr organig, pump o gyrff masnach/proseswyr organig a naw o Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol.

Ar y cyd, fe wnaethom atgoffa Mark Drakeford, y Prif Weinidog, y byddai rhoi'r gorau i gynnig cymorth ar gyfer ffermio organig yn arwain at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol difrifol yng Nghymru ac y byddai, yn ôl pob tebyg, yn peri i lu o ffermwyr organig adael, gan achosi niwed parhaol i'r sector.

O'r herwydd, calonogol oedd clywed Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, yn datgan yn un o Gyfarfodydd Llawn y Senedd y mis diwethaf (8 Hydref) y bydd cyllideb fach ar gael ar gyfer cynorthwyo ffermio organig.

**Yn anffodus, rydym yn dal i ddisgwyl i'r Gweinidog gyflwyno datganiad yn cadarnhau hyn ac yn nodi rhagor o fanylion.**

Hyd nes y cawn ddatganiad ysgrifenedig, yr unig beth sydd gennym yw'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn, sef:

"Bydd rhywfaint o gyllid penodol ar gyfer ffermwyr organig. Rwy'n cydnabod yn llwyr yr achos a gyflwynwyd ganddynt i mi, ac rwyf wedi gallu neilltuo pot bach o arian, a gobeithio y bydd hyn yn helpu."

O gofio bod y Prif Weinidog wedi rhybuddio'n ddiweddar 'nad oes arian i wneud yr holl bethau yr hoffem ni eu gwneud', ni allwn fod yn siŵr y bydd Llywodraeth Cymru yn troi gair yn weithred.

Bydd cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024 yn cael eu cyhoeddi ar 19 Rhagfyr; ond yn y cyfamser, bydd Lesley Griffiths yn ymddangos gerbron Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gyfer craffu cyffredinol ar 13 Rhagfyr.

Disgwyliwn y bydd yn cael ei holi am ddirwyn contractau Glastir i ben a'r trefniadau amaeth-amgylcheddol interim yn 2024. Dyma ddolen ar gyfer y cyfarfod hwn:
https://business.senedd.wales/ieListDocuments.aspx?CId=738&MId=13575&Ver=4

*Anfonwch y diweddariad hwn at eich rhwydweithiau a'ch cysylltiadau yn y gadwyn gyflenwi os gwelwch yn dda.*

*Efallai y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth yn y dyfodol yn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau, y farchnad organig ehangach a chyd-ddyheadau i fod yn arweinwyr o ran cynhyrchu bwyd sy'n gydnaws â natur a'r hinsawdd.*

*Mae Fforwm Organig Cymru yn parhau i ymgysylltu â swyddogion y llywodraeth ac mae'n aros yn eiddgar am ddiweddariad gan Weinidogion.*